

*Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau*

Cyngor Celfyddydau Cymru

# Ailosod y llwyfan

## Ymateb i'r pandemig

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Rhagair

Cafodd y pandemig effaith fawr ar ein heconomi, ein diwylliant a'n ffordd o fyw. Dros nos, arweiniodd y pandemig byd-eang at chwalfa yn ein gweithgareddau cyhoeddus a'n ffordd o fyw ac o weithio.

Mae'n amlwg bellach mai'r celfyddydau fydd un o'r sectorau olaf i ailymddangos yn llawn o'r cyfnod cloi a'r cyfyngiadau cymdeithasol. Mae hyn yn cael effaith sy'n peri pryder ar wytnwch ariannol sefydliadau a gweithwyr llawrydd creadigol. Ein tasg, felly, yw mynd i'r afael â'r problemau sy'n ein hwynebu'n awr a datblygu ymatebion cadarnhaol sy'n diogelu a chynnal y sector. Mae hyn yn golygu gweithio gyda'n rhanddeiliaid, ein partneriaid a'r rhai sy'n gweithio yn y celfyddydau i gytuno ar gamau gweithredu penodol sy'n ymateb gyda dychymyg, ymarferoldeb a bod yn agored i'r argyfwng.

Mae llawer ohonoch eisoes wedi cysylltu â ni i awgrymu pethau y dylem fod yn eu gwneud. Mae eich syniadau wedi bod yn hynod ddefnyddiol, hyd yn oed os yw nifer y cynigion wedi bod braidd yn uchelgeisiol. Serch hynny, wrth inni weithio ein ffordd drwyddynt, mae'n briodol rhannu â chi ystod o faterion yr ydym ni'n eu hystyried.

Nid strategaeth mo'r papur – daw hynny yn yr wythnosau i ddod. Yn hytrach, rydym ni am sôn am yr hyn rydym ni wedi bod yn ei glywed. Ac wrth inni gynllunio rhaglenni gwaith yn y dyfodol, byddai gennym ddiddordeb mewn gwybod beth yw eich barn. Rhowch wybod imi.

Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle i'ch llongyfarch ar eich gwaith caled yn wyneb y pandemig. Mae angen y celfyddydau'n fwy nawr nac erioed i gynnig mwynhad, cysur a lles. Diolch i bob un ohonoch.

Yn gywir

Nick

Nick Capaldi
Prif Weithredwr
Cyngor Celfyddydau Cymru

## Yr hyn rydym ni wedi'i wneud hyd yn hyn

- darparu arian brys o £5.7 miliwn i 780 unigolyn a sefydliad drwy **Gronfa Wytnwch y Celfyddydau**
- darparu £20 miliwn o refeniw a chyfalaf drwy **Gronfa Adfer Ddiwylliannol**, gan helpu 209 sefydliad i ymddiogelu rhag effaith yr argyfwng
- cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen gymorth newydd ar gyfer unigolion drwy'r **Gronfa Adfer Ddiwylliannol**
- cynghori Llywodraeth Cymru ar ei chanllawiau am **Ymarfer, Perfformio a Chymryd Rhan yn y Celfyddydau**
- dechrau **ailagor rhaglenni ariannu'r Loteri Genedlaethol yn raddol** yn ystod 2020/21
- lansio cronfa Loteri Genedlaethol gwerth £4 miliwn, **Cysylltu a Ffynnu**, gan annog sefydliadau, unigolion a gweithwyr creadigol i gydweithio i ailddechrau gweithgarwch celfyddydol cyhoeddus
- ailagor cynllun yr **Ysgolion Creadigol Arweiniol**, ein rhaglen **Dysgu Creadigol**, gan archwilio dulliau creadigol o addysgu a dysgu mewn ysgolion
- parhau i gefnogi datblygiad sefydliadau dan arweiniad pobl anabl, pobl ddu, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol a phobl liw drwy ein rhaglen **Camau Creadigol**
- ailagor ein cronfa **Rhannu â'n Gilydd**, gan gefnogi rhwydweithiau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes i gysylltu a chyfnewid syniadau a phrofiad
- pennu dyddiad newydd ar gyfer ein **Hadolygiad Buddsoddi** gan ganiatáu rhagor o amser i sefydliadau ymgeisio i gael eu hariannu fel aelod o’r Portffolio o Ebrill 2023 ymlaen

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 2 |
| Yr hyn rydym ni wedi'i wneud hyd yn hyn | 3 |
| Ailosod y llwyfan | 5 |
| Tegwch a chydraddoldeb | 7 |
| Y Gymraeg | 10 |
| Gwerthfawrogi'r gweithwyr creadigol unigol | 13 |
| Sefydliadau cadarn a bywiog | 16 |
| Cwrdd â her brecsit | 20 |
| Cynaliadwyedd amgylcheddol | 23 |
| Newid y ffordd rydym ni'n gweithio | 26 |
| Ailadeiladu cynulleidfaoedd, ymgysylltu â chymunedau | 30 |


hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gwybodaeth mewn print bras a braille, ynghyd â fformatau sain a Hawdd eu Deall, ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

# Ailosod y llwyfan

Mae'r byd yn edrych yn wahanol iawn erbyn hyn. Mae lleoliadau'n aros ar gau, mae artistiaid a gweithwyr llawrydd creadigol heb waith. Felly, wrth inni ystyried beth ddaw nesaf, nid ydym ni’n sôn am "fusnes fel arfer". Yn hytrach, rhaid inni edrych o'r newydd ar sut i sicrhau sector celfyddydau cryf a gwydn sy'n adlewyrchu diwylliant a chymdeithas sy’n briodol i’r Gymru fodern. Dyna ailosod y llwyfan.

Nid yw’n fater o ba mor gyflym y gall lleoliadau ailagor neu gall cynulleidfaoedd ddychwelyd i ddigwyddiadau cyhoeddus, er mor bwysig yw hyn. Mae'n ymwneud â'r hyn sy'n digwydd pan fydd yn digwydd.

Rydym ni’n cwestiynu popeth ac ailystyried ein gwerthoedd ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Ac wrth i'r gwerthoedd hyn newid, rhaid inni beidio â hiraethu am orffennol clyd na phoeni’n ormodol am ddyfodol ansicr. Os gwnawn, bydd perygl inni wanhau posibiliadau’r dyfodol. Mae'r rhai yn y sector yn ymwybodol o'r perygl. Nid ydynt yn sôn am y 'normal newydd' gan wybod nad yw 'normal' nac yn bosibl nac yn ddymunol.

Dyma galon y gwir: nid yw 'normal' wedi bod yn ddigon da ers tro byd.

Mae’r pandemig wedi effeithio'n arw ar ardaloedd o Gymru sy'n cael eu difetha gan dlodi ac anfantais economaidd. Ac mae'r cyfryngau’n llawn o brofiadau caled pobl ddu, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol a phobl liw. Erbyn hyn, mae pawb yn llawn ymwybodol o effaith y pandemig ar gymunedau amrywiol a phobl anabl. Ond os ein diwylliant sy’n dangos pwy ydym, mae’r ymgyrchoedd Mae Bywyd Pobl Ddu o Bwys ac Ni Chawn ein Dileu yn arwydd nad ydym ni wedi cydnabod ein gwahaniaethu a’n diffyg cydraddoldeb. Ni ddylai diwylliant fod ar gyfer pobl freintiedig yn unig.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynllunio dyfodol gwahanol, yma yn y Cyngor ac ar draws Cymru. Mae unigolion a sefydliadau ledled Cymru wedi ymffurfio yn grwpiau i archwilio atebion ymarferol i'r problemau presennol. Croesawn hyn. Rydym ni wedi cymryd rhan yn y trafodaethau hyn lle gallem, ac mae ein hymateb yn seiliedig ar yr hyn rydym ni wedi'i glywed hyd yma. Edrychwn ymlaen at barhau â'r trafodaethau.

Mae angen mawr i wneud dewisiadau 'da'. Bydd hyn yn gofyn am ein dealltwriaeth glir o'r hyn sydd angen ei newid, ein hatebion gorau a'n penderfyniad gwytnaf i adeiladu gwell dyfodol i gelfyddydau Cymru. Drwy gydweithio, mae gennym gyfle i ailosod y llwyfan.

Mae cymdeithas hael, deg a goddefgar yn gynhwysol ei natur. Mae'n gwerthfawrogi ac yn parchu creadigrwydd ei holl ddinasyddion.

Os ydym ni am i Gymru fod yn deg, yn ffyniannus ac yn hyderus, gan wella ansawdd bywyd pobl ym mhob un o'i chymunedau, rhaid inni wneud y dewisiadau i alluogi hynny.

Mae'r celfyddydau yn ein helpu i ddeall gwahaniaeth. Maen nhw'n mynegi'r hyn sy'n unigryw ac yn unigol, ond hefyd beth sy'n ein huno. Maen nhw’n mynegi ein dynoliaeth gyffredin a’n lle yn y byd. Mae amrywiaeth yn cryfhau ac yn bywiogi'r celfyddydau.

## Tegwch a chydraddoldeb

Nid yw’r pandemig yn effeithio ar bawb yr un fath – y rhai tlotaf a mwyaf ymylol yw'r rhai sy’n cael y glec waethaf. Mae’r cyfoethog ar y llaw arall yn gallu goroesi’r storom yn well. Rhaid i’r dyfodol fod yn wahanol iawn – mwy amrywiol a mwy cynrychioliadol o gyfoeth cymdeithasol a diwylliannol y Gymru gyfoes.

Nid oes hierarchaeth ym maes cydraddoldeb. Dylem groesawu cydraddoldeb a dathlu gwahaniaeth boed yn wahaniaeth hil, rhywedd, rhywioldeb, oedran, anabledd, iaith neu dlodi. Rhaid inni beidio ag anwybyddu ymddygiad gormesol sefydliadol a strwythurol yn erbyn unigolion a chymunedau. Ni ddylem anwybyddu'r effaith y gall tlodi ei chael ar gyfle pobl i fwynhau’r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Tlodi yw un o'r anghyfiawnderau gwaethaf y gall unrhyw un ei wynebu ac mae'n treiddio i lawer o gymunedau mewn sawl rhan o Gymru.

Mae'n hen bryd newid.

Ar hyn o bryd, gwrthodir gormod cyfleoedd i bobl Fyddar, anabl, ddu, Asiaidd, liw, Gymraeg ac ethnig lleiafrifol fwynhau’r celfyddydau a chymryd rhan a gweithio ynddynt. Mae’r ystadegau ariannu yn adrodd eu stori’n glir ac nid rhamant mohoni. Yn rhy aml o lawer, mae arian cyhoeddus yn dilyn hen batrwm traddodiadol a pheidio â chyrraedd y rhai sydd ei angen.

Mae'r pandemig presennol yn cynyddu’r perygl i iechyd a bywoliaeth pobl. Bydd angen i unrhyw ymarferwyr creadigol Byddar, niwroamrywiol ac anabl barhau i amddiffyn ymhell ar ôl i'r cyfyngiadau ar y boblogaeth gyffredinol ddechrau lleddfu. Gallai hyn, er enghraifft, danseilio’r cynnydd a wnaed dros y blynyddoedd i sefydlu hawliau cyfreithlon i bobl Fyddar ac anabl i fwynhau’r celfyddydau a chymryd rhan a gweithio ynddynt. Rhaid i hynny beidio â digwydd.

Rhaid i ni newid, gan gydnabod anghydraddoldebau strwythurol yn ein sefydliad ac ar draws celfyddydau Cymru, yn enwedig y boen y mae hiliaeth strwythurol yn ei achosi. Gall grym a braint fod yn rhwystr difrifol i gydraddoldeb, cynrychiolaeth a chynwysoldeb. Ni ddylai'r cyfrifoldeb am newid fod ar ysgwyddau’r rhai rydym ni wedi'u cau allan. Mae'r amser ar gyfer gweithredu gwrth-hiliol ar frys, ar gyfer newid strwythurol a phrosesau teg. Mae’r Cyngor yn derbyn ei gyfrifoldeb i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Y camau rydym ni’n eu hystyried:

1. Gweithredu'r ymrwymiadau yn ein datganiad Mae Bywyd Pobl Ddu o Bwys a chyhoeddi sy'n nodi'r camau gweithredu wedi'u hamserlennu
2. Cymeradwyo'r 7 Egwyddor Gynhwysol i Sefydliadau Celfyddydol a Diwylliannol a ddatblygwyd gan yr ymgyrch Ni Chawn ein Dileu
3. Cynnwys ar unwaith bobl Fyddar, anabl, ddu, Asiaidd, liw ac ethnig lleiafrifol wrth wraidd y drafodaeth am strategaethau i’r dyfodol
4. Parchu gwerth cyfraniad y bobl rydym ni’n gofyn am eu help gan wneud taliad priodol am eu hamser, eu gwaith a'u profiad byw
5. Gwella amrywiaeth aelodau o’r Cyngor fel rhan o'r ymgyrch recriwtio bresennol, gan sicrhau y caiff safbwyntiau amrywiol eu cynrychioli'n briodol yn ein strwythurau llywodraethu a phenderfynu
6. Gwella amrywiaeth staff y Cyngor gan gynnwys creu Asiant er Newid â mandad grymus i gychwyn ac annog diwygiadau ar draws sector y celfyddydau sy'n diwallu anghenion a disgwyliadau pobl sy’n amrywiol yn ethnig ac yn ddiwylliannol a phobl â nodweddion gwarchodedig
7. Ailystyried ein prosesau ymgeisio am arian a'n meini prawf asesu'r Loteri Genedlaethol mewn pryd ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol newydd (2021/22) gan ei gwneud yn haws i’n harian gyrraedd holl gymunedau Cymru
8. Creu arian newydd i fuddsoddi yng nghreadigrwydd artistiaid â nodweddion gwarchodedig gan ganolbwyntio ar y cychwyn ar artistiaid Byddar, anabl, duon, Asiaidd, liw a Chymraeg. Bydd hyn yn dechrau yn y flwyddyn ariannol gyfredol (2020/21)
9. Ymestyn ein rhaglen, Camau Creadigol, i gynnig arian newydd i ddatblygu sgiliau a thalent newydd ymhlith artistiaid Byddar, anabl, ddu, Asiaidd, liw ac ethnig lleiafrifol
10. Dechrau’n awr gyda'n sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru i gytuno ar ymrwymiadau sy'n gwella amrywiaeth eu byrddau, eu gweithlu a'u rhaglenni gwaith. Cytunir ar y rhain wrth adnewyddu cytundebau ariannu 2021/22
11. Cefnogi Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan annog ymgysylltu, addysg a chyflogaeth

Y Gymraeg yn anad dim sy'n gwneud Cymru yn unigryw. Ond os ydym ni am gynnal yr iaith, mae'n bwysig bod cyfleoedd i gymdeithasu a thrafod ac ymgysylltu ag ystod eang o weithgarwch artistig a bod y rhain yn adlewyrchu amrywiaeth cymunedau Cymraeg.

Byddwn ni’n mynnu triniaeth deg a chyfartal i'r Gymraeg. Nid yw’n fater o gydymffurfio’n unig â gofynion deddfwriaeth y Llywodraeth. Mae'n fater o ymrwymo i ddatblygu’r cyfleoedd y mae creadigrwydd Cymraeg yn eu cynnig.

Mae'r Gymraeg yn fodd inni ddeall a mwynhau llenyddiaeth a diwylliant cyfoethog. Rhaid inni ddod â chreadigrwydd a dychymyg i'r her o gadw'r iaith. Rhaid inni adrodd ei stori a hithau’n iaith bob dydd y cenedlaethau ac arwydd o le penodol Cymru yn y byd. Fel arall ni fydd yr iaith yn fyw ac ni fydd yn cynnwys pawb.

# Y Gymraeg

Mae gennym sawl Cymru – yn ddiwylliannol, yn ddaearyddol, yn economaidd ac yn ieithyddol. Mae'r celfyddydau'n ffynnu ar hyn ac yn cymryd eu lle wrth wraidd bywyd Cymru. Mae Cymru yn genedl ddwyieithog gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal dan y gyfraith. Rhaid inni gydnabod hawl pobl sydd am fyw bywyd diwylliannol llawn drwy'r Gymraeg.

Rhaid i bobl allu mynd i weithgareddau Cymraeg a chymryd rhan ynddynt yn agos i'w cartref. Rydym ni'n ymwybodol bod dosbarthiad presennol cyfleoedd ledled Cymru yn anwastad. Ac mae'r ddarpariaeth yn ein dinasoedd allweddol – Caerdydd, Abertawe, Casnewydd – yn wael, o'i chymharu â'r boblogaeth yno. Rhaid inni newid hyn drwy weithredu penodol gyda thargedau.

Rydym ni wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd ym mhob agwedd ar y celfyddydau i ymarferwyr weithio yn eu dewis iaith. Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n blaenoriaethau, ar draws holl waith y Cyngor. Ond nid yw'n hawdd cynnal gyrfa artistig drwy gyfrwng y Gymraeg bob amser. Mae gennym ran allweddol i'w chwarae i wella hyn.

Drwy'r artistiaid, y sefydliadau a'r prosiectau unigol a ariannwn a thrwy ein rhaglenni gydag arian y Llywodraeth a'r Loteri Genedlaethol, mae gennym y gallu i ddylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg. Rydym ni hefyd yn gweithio gyda gwahanol sefydliadau sydd ag arbenigedd ym maes datblygu'r Gymraeg gan gynnwys yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a Thafwyl. Os ydym ni'n cynllunio'n ddychmygus, gallwn gynyddu amlygrwydd y Gymraeg, creu cyfleoedd iddi a datblygu ein heiriolaeth drosti drwy ein rhwydwaith o bartneriaid a gweithgarwch.

Rydym ni am weld celfyddydau Cymraeg yn adlewyrchu'r Gymru gyfoes. Tybir yn aml fod y gymuned Gymraeg yn unffurf. Ond beth am siaradwyr Cymraeg anabl? Siaradwyr Cymraeg o gefndiroedd diwylliannol gwahanol? Roedd dramâu am y gymuned hoyw, "Tylwyth" a "Llwyth" gan Dafydd James ymhlith y dramâu Cymraeg mwyaf llwyddiannus ers sbel go hir. Mae hyn yn ein hatgoffa o ddyfnder yr amrywiaeth a'r cynwysoldeb y gellir eu cyflawni drwy greu gwaith Cymraeg, ar draws pob celfyddyd.

Dylai unrhyw artist neu sefydliad celfyddydol yng Nghymru ei chael yr un mor hawdd weithio yn y Gymraeg ag yn y Saesneg. Nid yw hyn yn wir bob amser. Felly rydym ni am ariannu rhagor o waith yn Gymraeg.

Yn y pen draw, mae cadw'r iaith yn fyw i'r dyfodol yn gofyn am newid calon ac agwedd pobl. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod ein cyfrifoldeb ac yn creu amgylchedd cadarnhaol lle gall y Gymraeg ffynnu.

Y camau rydym ni’n eu hystyried:

1. Sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynrychioli'n dda ar ein Cyngor drwy recriwtio aelodau newydd - sy’n digwydd ar hyn o bryd

2. Anelu at sicrhau bod o leiaf 50% o staff y Cyngor yn siarad Cymraeg

3. Gweithio i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
   Cymraeg 2050: Rhaglen waith 2017-21

4. Sicrhau ein bod yn bodloni Safonau Mesurau'r Gymraeg (Cymru) 2011, gan adrodd ar ein cydymffurfiad drwy gyhoeddi Adroddiad Blynyddol am y Gymraeg
   Strategaeth Y Gymraeg
   Adroddiadau Blynyddol y Gymraeg

5. Annog ein Portffolio i fabwysiadu cynlluniau Cymraeg uchelgeisiol gyda thargedau clir a phendant o ran cynnwys siaradwyr Cymraeg yn eu strwythurau llywodraethu, eu gweithlu a'u gwaith. Byddwn ni’n cytuno ar y rhain wrth inni adnewyddu cytundebau ariannu 2021/22

6. Gweithredu'r argymhellion yn ein hadroddiad Mapio'r Gymraeg a gomisiynwyd yn ddiweddar

7. Cynyddu'r gwaith Cymraeg a ariannwn ac adrodd arno gan greu cronfeydd penodol i fuddsoddi mewn datblygu, creu a chyflwyno’r celfyddydau Cymraeg

8. Cefnogi a hyrwyddo Degawd Ieithoedd Cynhenid UNESCO

9. Creu partneriaeth gryfach gydag Uned Datblygu Iaith Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau hynny sy'n weithgar ym maes datblygu'r Gymraeg gan gynnwys yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a’r Mentrau Iaith

Cafodd y diwedd sydyn ar weithgarwch ym Mawrth 2020 effaith bersonol ddofn ar artistiaid a gweithwyr celfyddydol.

Dywedodd mwyafrif llethol yr artistiaid unigol fod gwaith wedi'i ganslo'n llwyr yn 2020 a’r tu hwnt. Mae’r ansicrwydd parhaus yn cael effaith sylweddol ar ddiogelwch ariannol a lles pobl. Mae llawer yn teimlo nad oes ganddynt fawr o ddewis heblaw ymadael â maes y celfyddydau'n gyfan gwbl.

Byddai hynny'n ganlyniad ofnadwy. Sefydliadau mawr sy’n denu sylw mawr y cyfryngau, ond heb artistiaid a gweithwyr creadigol unigol bydd llawer o sefydliadau yn ei chael hi'n anodd cyflwyno eu gwaith.

# Gwerthfawrogi'r gweithwyr creadigol unigol

Artistiaid nid sefydliadau sy’n creu celf. Pwy sy'n ysgrifennu'r gerdd, cyfansoddi'r gerddoriaeth, llunio’r ddrama, canu'r gân, perfformio’r ddawns, breuddwydio'r nofel, paentio’r llun, creu’r ddysgl, goleuo'r llwyfan, ysbrydoli’r plant, diddanu’r gynulleidfa? Yr artist wrth gwrs. Yr artist sy'n ymateb i'r byd yn ei holl obaith a’i anobaith, yn ei holl newidiadau da a drwg.

Yr unigolyn yw prif asiant creu. Mae’r pandemig wedi atal cyflwyno gwaith i gynulleidfa a dyna brif waith artistiaid a gweithwyr llawrydd. Artistiaid a phobl lawrydd yw'r gweithwyr caib a rhaw yn y pen draw. Maent yn symud o brosiect i brosiect i ddod o hyd i'r siec gyflog nesaf. Maent yn gwneud hynny heb yr amddiffyniadau sydd gan weithwyr cyflogedig. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr llawrydd wedi cael y profiad o ganslo 100% o'u gwaith. Maent heb incwm a heb argoel o waith. Ac maen nhw'n llai tebygol o fod ag arian wrth gefn yn y banc.

Er na all gweithwyr llawrydd weithio ac na all y cyhoedd weld perfformiad byw mae cynulleidfaoedd wedi ymgyfarwyddo â derbyn cynnwys ar-lein, a hynny’n rhad ac am ddim. Ym mhen y rhawg bydd cynulleidfaoedd yn mynd yn ôl i brofi digwyddiadau byw. Bryd hynny bydd angen artistiaid a gweithwyr llawrydd i greu’r perfformiadau.

Mae unigolion creadigol yn ddyfeisgar a hyblyg. Er enghraifft, mae'r ddarpariaeth ddigidol mewn ysgolion yn ein rhaglen Dysgu Creadigol wedi dangos sut y gellir addasu rhaglenni gwaith. Ac mae'r galw parhaus am artistiaid i gefnogi ein rhaglen Celfyddydau ac Iechyd yn dangos bod y galw yno.

Mae galw tebyg mewn nifer o feysydd lle mae artistiaid yn gweithio. Mae'r celfyddydau'n bywiogi ystod eang o weithgarwch yn ein bywyd cyhoeddus. Maent yn creu a chynnal swyddi, cyfoethogi gwasanaethau addysg, dod â phobl at ei gilydd, cynnig cysur drwy’r celfyddydau ac iechyd a gwella ansawdd ein bywyd. Mae'r unigolyn creadigol yn hanfodol i hyn i gyd.

Wrth i'r diwydiant wella ar ôl y pandemig, bydd angen mesurau diogelu i sicrhau bod arian cyhoeddus i sefydliadau'r celfyddydol o fudd i'r gweithlu llawrydd. Rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r celfyddydau ddod at ei gilydd i ddiogelu'r gweithlu llawrydd sydd mor fregus wrth i adferiad ddechrau. Os na wnawn hynny, rydym ni’n peryglu amrywiaeth a llwyddiant y diwydiannau celfyddydol.

Y camau rydym ni'n eu hystyried:

1. Gweithio gyda Thasglu Llawrydd Cymru i gefnogi gweithredu eu strategaeth adfer, "Ailbwyso ac Ail-greu"

2. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Thasglu Llawrydd Cymru i ddatblygu'r "Adduned Gweithwyr Llawrydd" (rhan o Gronfa Adfer Ddiwylliannol y Llywodraeth)

2. Annog a chefnogi gwaith sefydliadau sy'n ymgyrchu, megis Ffederasiwn y Diwydiannau Creadigol, sy'n pwyso am ddiwygio hawliau cyflogaeth a diogelwch i weithwyr llawrydd

3. Hyrwyddo cyfleoedd i weithwyr creadigol weithio yn ein rhaglenni Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a'r Celfyddydau ac Iechyd

4. Cynnal ein partneriaethau gyda BBC Cymru ac S4C i ddatblygu a hyrwyddo talent greadigol

5. Sicrhau bod yr egwyddor sylfaenol o gyflog teg a chydraddoldeb rhwng y rhywiau wedi'u hymgorffori ar draws celfyddydau Cymru

6. Sicrhau bod arian y Cyngor yn annog rhagor o gyfleoedd i weithwyr creadigol ddatblygu eu gwaith a chynnal eu presenoldeb yn well ym mhrosiectau ein sefydliadau

7. Ariannu gofal plant ar unwaith fel angen hygyrchedd yn y prosiectau a ariannwn

8. Archwilio cynigion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyfer menter beilot i archwilio'r syniad o Incwm Sylfaenol i weithwyr creadigol

Ar hyn o bryd, mae sefydliadau celfyddydol yng nghanol brwydr ddyddiol i oroesi. Trawyd yn arbennig o wael y rhai a fu'n llwyddiannus wrth arallgyfeirio eu hincwm a lleihau eu dibyniaeth ar arian cyhoeddus.

Ni wyddom eto pryd y bydd y pandemig ar ben. Ond wedyn bydd angen ailagor ac ymgysylltu o'r newydd.

Fel y bydd hyn yn digwydd, bydd angen rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o gysylltu drwy'r celfyddydau. Rhaid inni weithio ar adeiladu sector celfyddydol sy'n cysylltu'n well â'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu mewn ffordd gryfach, decach a mwy cynhwysol.

## Sefydliadau cadarn a bywiog

Mae diwydiannau creadigol a diwylliannol yn injan hanfodol i economi Cymru. Maent yn cyfrannu'n uniongyrchol swyddi a chynnyrch drwy greu, dosbarthu a manwerthu nwyddau a gwasanaethau. Maent hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at ein lles a'n hansawdd bywyd.

Mae pawb am weld ailddechrau gweithgarwch sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Ond gyda rhagolygon ansicr yr adferiad, mae'n anodd rhagweld beth fydd yn digwydd. Mae’r ymbellhau cymdeithasol yn lleihau'r seddi sydd ar gael mewn theatrau, neuaddau cyngerdd a chanolfannau. Wedyn dim ond rhwng 15% a 30% o seddi sydd ar gael i'w gwerthu sy’n gwneud ailagor yn aneconomaidd heb gael arian ychwanegol.

Mae cyfyngiadau ar bobl wrth ymgasglu yn effeithio ar bob math o weithgarwch. I sefydliadau sy'n gweithio gyda chymunedau, gan gynnwys y bobl ifanc sy'n cymryd rhan, mae ansicrwydd o hyd am sut a phryd y gall ailddechrau.

Wrth gwrs mae’r sector yn ehangach na'r sefydliadau a ariannwn ar hyn o bryd. Mae'n cynnwys y rhai sy'n gweithio'n fasnachol. Mae’r rhai sy’n creu cerddoriaeth gymunedol wedi cael eu taro'n arbennig o galed gan y cyfyngiadau wrth i bob côr a band gael eu hatal rhag ymarfer a pherfformio. Mae’n rhan bwysig iawn o’n diwylliant a bydd angen help arnynt i ymsefydlogi eto.

Wrth i'r sector addasu a cheisio sefydlu lefel hyfyw o weithgarwch, bydd rhai'n ei chael hi'n anodd cadw adeiladau ar agor neu gynnal bywoliaeth. Bydd rhaid sefydlogi’r sector, cynnal cyflogaeth, parhau i greu celf yn unigol ac ar y cyd a pharatoi ar gyfer ailddechrau gwaith cyhoeddus. Bwriad strategaethau ariannu Llywodraeth Cymru a’r Cyngor yw cefnogi hyn.

Bydd rhaglenni ariannu’r Cyngor megis Cysylltu a Ffynnu yn ceisio digolledu’r sector am yr amser a gollwyd, hyrwyddo talent greadigol ac ailadeiladu'r partneriaethau sy'n cynnal y celfyddydau. Mae Cysylltu a Ffynnu yn rhagweld gweithio gydag ystod o sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd, cymdeithasau tai, y Mentrau Iaith, sefydliadau datblygu cymunedol ac amgylcheddol.

Cysylltu a Ffynnu sy'n hyrwyddo'r cysyniad o’r Contract Diwylliannol. Mae’n ddyddiau cynnar ar y contract, ond mae’n darparu fframwaith i sefydliadau ymateb i bryderon Mae Bywyd Pobl Ddu o Bwys ac Ni Chawn ein Dileu. Mae hefyd yn hyrwyddo sefydlu rhagor o gyfleoedd i weithwyr llawrydd, prosiectau yn y Celfyddydau ac Iechyd, a mynd i'r afael â'r diffyg cyfleoedd i greu a mwynhau gwaith Cymraeg a chymryd rhan ynddo.

Rhan bwysig o’n hymdrechion ariannu yw cefnogi'r Portffolio. Dyma'r sefydliadau ledled Cymru sy'n cael arian refeniw blynyddol. Bob pum mlynedd edrychwn ar y sefydliadau a ariannwn drwy’r Adolygiad Buddsoddi. Roedd yr adolygiad i fod i ddigwydd yn 2020. Ond yn wyneb y pandemig, penderfynodd y Cyngor ei atal.

Bydd sefydliadau am gyflwyno eu hachos gorau dros gael eu cynnwys yn y Portffolio a nodi eu cryfderau a'u cyflawniadau. Os bydd y pandemig yn parhau, bydd hyn yn anodd yn y tymor byr, yn enwedig os yw'r frwydr ddyddiol yn parhau. Felly, rydym ni wedi penderfynu gohirio cyflwyno trefniadau ariannu i'r Portffolio newydd a bydd hyn yn digwydd yn awr o Ebrill 2023 ymlaen.

Mae hyn yn golygu y bydd yr adolygiad yn dechrau tua diwedd 2021 a bydd yr asesu a phenderfynu'n digwydd yn ystod 2022. Disgwyliwn gyhoeddi penderfyniadau yn hydref 2022, mewn pryd i drafod cytundebau ariannu newydd ar gyfer 2023/24.

Bydd ein hadolygiad nesaf yn croesawu blaenoriaethau ein cynllun corfforaethol, Er Budd Pawb. Byddwn ni'n ystyried sut rydym ni'n buddsoddi arian y Loteri Genedlaethol i feithrin gallu sefydliadau sydd y tu allan i'r Portffolio presennol. Pan fydd yr adolygiad yn digwydd, ein gobaith yw y bydd amrywiaeth o sefydliadau a all gystadlu am gael eu cynnwys ar sail fwy cyfartal.

Byddwn ni'n trafod ac ymgynghori am fanylion yr adolygiad yn y misoedd nesaf.

Y camau rydym ni’n eu hystyried:

1. Addasu ein cymorth ariannol yn ôl yr angen, gan roi ymateb ystwyth i'r pandemig wrth iddo esblygu

2. Cytuno â’r Portffolio ar dargedau i gynnwys pobl Fyddar, anabl, ddu, Asiaidd, liw, Gymraeg ac ethnig lleiafrifol yn eu llywodraethu, eu gweithlu a'u rhaglenni gwaith

3. Gweithio gyda’r sector a phartneriaid eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol, i fynd i'r afael â phroblemau addasu lleoliadau ac archwilio rhai newydd

4. Gweithio gyda’r sector a chyrff masnachol a chynrychioliadol i berswadio Llywodraeth Prydain i ymestyn rhyddhad treth ar gyfer gweithgarwch diwylliannol

5. Archwilio potensial y Contract Diwylliannol gyda sefydliadau a gweithwyr llawrydd, gan drafod cytundebau ariannu newydd gyda sefydliadau sy'n hyrwyddo'r gwerthoedd a'r blaenoriaethau'r contract

6. Archwilio ffyrdd o gefnogi'r gwaith o greu cerddoriaeth gymunedol drwy weithio gydag asiantaethau arbenigol fel Tŷ Cerdd ar raglenni posibl yn y flwyddyn ariannol gyfredol

7. Hyrwyddo dysgu am ffyrdd effeithiol o ddatblygu cyflwyno a dosbarthu digidol gan archwilio ffyrdd newydd i bobl ymgysylltu â'r celfyddydau a’u creu

Mae'r celfyddydau'n ychwanegu ar brydferthwch Cymru i ni ac i bobl eraill. Celfyddyd o safon a gynhyrchir yma am Gymru yw'r ffordd orau o hyrwyddo ein diwylliant ar lwyfan y byd.

Ond mae cydweithio rhyngwladol yn wynebu ergyd ddwbl - y pandemig a brecsit. Mae gan frecsit oblygiadau ymarferol am weithio gyda phartneriaid yn Ewrop. A bydd penderfyniadau'r misoedd nesaf yn diffinio'r sefyllfa economaidd, diwylliannol a chymdeithasol i Gymru am flynyddoedd i ddod.

Ni waeth beth yw'ch barn am frecsit, bydd angen i artistiaid a sefydliadau gael golwg glir ar y problemau newydd i weithio rhyngwladol.

## Cwrdd â her brecsit

Mae brecsit yn newid sylfaenol i'r ffordd rydym ni'n ymgysylltu â'n cymdogion yn Ewrop. Ers inni ymuno â'r Undeb Ewropeaidd, rydym ni wedi cymryd yn ganiataol ffiniau hawdd eu croesi a'r gallu i symud talent a chynnyrch creadigol yn rhad ac am ddim. Bydd hyn yn newid yn awr – sut yn union, nid yw'n glir.

Mae'r Undeb Ewropeaidd yn ffynhonnell talent ac arbenigedd allweddol i gelfyddydau Cymru. Mae cyfnewid talent yn hawdd dros ffiniau'n rhan o lwyddiant y diwydiannau creadigol ac yn un o lwyddiannau economi Prydain.

Mae'r celfyddydau'n ffynnu ar arbenigedd a thechnolegau arloesol ac arbenigol. Ond nid yw sgiliau o'r fath ar gael ym mhobman. Mae'r dalent yma yn bwysig i'r diwydiannau celfyddydol ond hefyd i wyddoniaeth a'r byd academaidd. Mae gweithwyr o Ewrop yn darparu llif cyson o sgiliau mewn meysydd arbenigol lle mae gennym ddiffygion.

Bydd yn anodd i Gymru a Phrydain ddenu a chadw talent o'r Undeb Ewropeaidd os cyfyngir ar y rhyddid i symud. Mae llif rydd o dalent a syniadau yn meithrin yr arloesedd sy'n sbarduno twf celfyddydol. Gallai cwtogi ar hyn arwain at golli sgiliau pwysig yng Nghymru a'i heconomi – yn enwedig yn y rhannau tlawd o Gymru. Mae cryfder, amrywiaeth ac arloesedd y celfyddydau yn dibynnu ar symud a chyfnewid syniadau, talent a chreadigrwydd yn rhad ac am ddim.

Ar hyn o bryd, mae cyfleoedd i weld ein celfyddydau a'n diwylliant drwy lygaid byd-eang yn cael eu cysgodi gan effaith y pandemig a brecsit. Mae'r cyd-destun hefyd yn cynnwys:

- yr argyfwng yn yr hinsawdd
- Mae Bywyd Pobl Ddu o Bwys
- Ni Chawn ein Dileu
- gofynion dwyieithrwydd

Ond mae'n gyfle i ailfeddwl ac ailfrandio ein cysylltiadau byd-eang drwy ddiwylliannau ac ieithoedd Cymru. Mae rhagoriaeth a chreadigrwydd celfyddydau Cymru yn cyfrannu'n rymus at ddatblygu ein cysylltiadau diwylliannol â gweddill y byd.

Ym mhen y rhawg bydd cyfyngiadau'r pandemig sy'n effeithio ar deithio rhyngwladol yn dechrau llacio a bydd gwaith rhyngwladol yn mynd yn haws unwaith eto. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd yn hanfodol y gall artistiaid a sefydliadau Cymru sy'n dibynnu ar waith rhyngwladol am eu bywoliaeth fanteisio ar y cyfleoedd.

Y camau rydym ni’n eu hystyried:

1. Cefnogi gwaith ein tîm rhyngwladol, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, i hyrwyddo Cymru a'i chelfyddydau yn y byd

2. Ymgyrchu dros atebion ymarferol i broblemau posibl brecsit o ran y rhyddid i symud, croesi ffiniau, teithebau ar gyfer gweithwyr creadigol sy'n dod i Brydain, hawliau digidol a diogelwch o ran eiddo deallusol

3. Monitro datblygiadau brecsit a darparu gwybodaeth am gyfleoedd a pheryglon pan ddônt yn glir

4. Ymgyrchu dros gael arian olynol i arian Ewrop Greadigol yr Undeb Ewropeaidd (Cronfa Fyd-eang Prydain, Digido Diwylliant: Cronfa Arloesi a'r Gronfa Ffyniant ar y Cyd) i gynnig y manteision ehangaf i gelfyddydau Cymru

5. Pwyso ar Gymru i ddod yn aelod trydedd wlad o'r rhaglen Ewrop Greadigol fel rhan o gynllunio ariannol ar ôl brecsit

6. Cefnogi uchelgais rhyngwladol Llywodraeth Cymru drwy gyflawni ein strategaeth ryngwladol, Cymru: Pont i'r Byd

7. Cefnogi cynnwys diwylliant ym mhob Cenhadaeth Fasnachol a Dirprwyon a noddir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol

8. Defnyddio'r arbenigedd a'r cysylltiadau yng Nghelfyddydau Rhyngwladol Cymru i gryfhau ein perthynas â Rhwydweithiau Ewropeaidd allweddol fel Mudiad Theatrau Ewropeaidd Anffurfiol, On the Move a Culture Action Europe

9. Sefydlu Pwynt Gwybodaeth i gynnig cyngor a gwybodaeth am faterion symudedd a theithebau

10. Cryfhau ein partneriaeth â'r Cyngor Prydeinig drwy raglenni gweithgarwch cydweithiol ac ategol

Mae Cymru'n wynebu nifer o broblemau cymdeithasol ac economaidd cymhleth. Mae llawer o'r rhain yn etifeddiaeth o'r gorffennol. Ond mae deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn cynnwys penderfyniad na fydd y genhedlaeth bresennol yn eu gadael i'r genhedlaeth nesaf.

Sail ein bywyd yw tirwedd ac arfordir Cymru. Maent yn ein cynnal a'n diffinio. Mae'n amhosibl gwahanu ein diwylliant rhag ein hamgylchedd naturiol.

Mae'n rhan o'r un system ac yn creu ymdeimlad o hunaniaeth. Mae amgylchedd iach a bioamrywiol yn ein gwneud yn ddedwydd a chysylltiedig. Felly mae'n rhaid inni fod yn barod i wneud pethau'n wahanol. Mae ein dewisiadau heddiw yn gorfod sicrhau dyfodol diogel, teg a chynaliadwy i ni ac i genedlaethau'r dyfodol.

# Cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae'r dirwedd yn newid ein diwylliant a'n diwylliant yn newid y dirwedd. Mae'n traddodiad yn gysylltiedig â'n hamgylchedd - fel sydd i'w weld yng ngweithiau'r Mabinogi, T H Parry-Williams, R S Thomas a David Nash.

Bydd dyfodol ein planed yn ein diffinio fel cymdeithas. Mae diogelu ein perthynas ddiwylliannol â natur a'n hamgylchedd - nid yn unig heddiw ond i blant ein plant - yn hanfodol i bob un ohonom. Yn ddi-os, mae newid yn yr hinsawdd a diogelu'r amgylchedd yn un o faterion pwysicaf ein hamser. Mae angen gweithredu ar frys.

Os ydym ni am osgoi cynhesu byd-eang, bydd angen "newidiadau cyflym, pellgyrhaeddol a digynsail ym mhob agwedd ar gymdeithas". Dyma neges adroddiad arbennig gan y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd yn 2018. Mae pawb ohonom yn gyfrifol am greu byd mwy cynaliadwy. Nid yw sector y celfyddydau yn eithriad.

Mae gan lawer o sefydliadau bolisïau amgylcheddol. Ond nid yw polisïau ar eu pen eu hunain yn newid ymddygiad, er bod ganddynt werth pwysig i ddangos bwriad. Ond y perygl yw bod ymrwymiad i gynaliadwyedd wedi'i wreiddio'n unig mewn polisi cwmnïau ond nad yw'n cael ei ymarfer. Mae angen inni annog dull arloesol a blaengar.

Yn ogystal â monitro eu perfformiad, mae sefydliadau celfyddydol mewn sefyllfa dda i hysbysu a herio pobl mewn sgyrsiau am gynaliadwyedd amgylcheddol. Mae deialog effeithiol yn rhan annatod o unrhyw weithredu yn y maes. Mae angen i'r weledigaeth o Gymru gynaliadwy gynnwys pawb yn y sgwrs.

Y camau rydym ni'n eu hystyried:

1. Hyrwyddo'r cyfleoedd a gynigir gan ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru

2. Gweithio gydag asiantaethau arbenigol fel Julie's Bicycle a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddyfeisio meincnodau a phrotocolau ar gyfer monitro'r defnydd o garbon gan sefydliadau'r Portffolio ac adrodd arnynt

3. Annog digwyddiadau a gwyliau mawr i ddatblygu a chyhoeddi cynigion penodol i leihau eu heffaith amgylcheddol

4. Darparu cymorth i sefydliadau celfyddydol sydd angen cymorth i sefydlu meincnodau a dysgu sut i fonitro effaith amgylcheddol eu gweithgareddau

5. Annog sefydliadau a ariannwn i ymgymryd â hyfforddiant ar sut i feincnodi eu defnydd o garbon a gorffen y gwaith yna erbyn Ebrill 2022 ac adrodd yn flynyddol yn erbyn y meincnodau o'r dyddiad yna ymlaen

6. Pwyso ar bob sefydliad celfyddydol a ariannwn i ymgymryd ag agwedd o fasnachu'n foesegol at gadwyni cyflenwi, gan sicrhau eu bod yn gwerthuso eu cyflenwyr, gan gynnwys cynnyrch teithiol a gwaith gan weithwyr llawrydd, a fydd yn gam tuag at ailystyried eu hallyriadau carbon

Mae'r cyhoedd yn ariannu sefydliadau ac mae ganddynt yr hawl i fynnu eu bod yn effeithlon ac yn gost-effeithiol. Mae'r rhai sy’n gweithio gyda ni’n disgwyl inni gael y pethau sylfaenol yn iawn a rheoli ein busnes mewn ffordd syml a chlir.

Maent hefyd yn disgwyl inni weithredu'n deg ac yn atebol. Rydym ni wedi ymrwymo i wella ein gwaith. Dylem arwain drwy esiampl. Ond mewn rhai meysydd nid oes gennym ddigon o wybodaeth a phrofiad byw yn ein sefydliad i arwain newid ar ein pen ein hunain.

Rhaid inni fynd yn fwy amrywiol fel sefydliad, yn fwy tryloyw ac atebol. Dim ond wedyn y byddwn ni’n llwyddo i ddiwallu uchelgais Er Budd Pawb a dyfnhau ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac ymgysylltiad ar draws y sector. Mae hyn yn flaenoriaeth, ac nid yn y tymor byr yn unig.

## Newid y ffordd rydym ni'n gweithio

Un o'r agweddau diddorol ar y pandemig yw'r ffordd y mae artistiaid a sefydliadau wedi darparu cymorth i'w gilydd gan rannu gwybodaeth, arolygu anghenion aelodau a chydlynu eiriolaeth. Mae modelau newydd ar waith o ran trafod a llunio polisi. Maent yn ehangu ystod y bobl a'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y sgwrs sy'n fwy cysylltiedig ac amrywiol. Os yw hyn yn rhan o'r 'normal newydd', hir oes iddo.

Dylai'r Cyngor fod yn barod i chwarae rhan yn y sgyrsiau. Rhaid iddo greu perthynas newydd gydag artistiaid a sefydliadau celfyddydol sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch. Rhaid inni fod yn fwy cynhwysol, gan wahodd artistiaid, sefydliadau ac ymgynghorwyr i weithio'n agosach gyda ni i ddatblygu polisi a strategaeth. Dylai artistiaid, gweithwyr a sefydliadau gymryd rhan yn y diffiniad o'r mesurau i gefnogi eu gwaith a chryfhau'r sector.

Mae Er Budd Pawb yn ein hymrwymo i greu amgylchedd lle mae'r celfyddydau'n ffynnu gan:

- nodi a meithrin talent greadigol, lle bynnag ei bod yng Nghymru, i'w lawn botensial, gan groesawu cydraddoldeb ac amrywiaeth
- cefnogi a dathlu dychymyg, arloesedd ac uchelgais
- meithrin creadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- galluogi artistiaid i ddatblygu gyrfa broffesiynol yng Nghymru a sefydliadau i fanteisio ar farchnadoedd newydd ar gyfer eu gwaith
- ysbrydoli pobl ifanc i ddatblygu eu potensial creadigol
- cynnig gwahanol brofiadau celfyddydol i bobl
- dod o hyd i leoedd a ffyrdd newydd i bobl weld a chlywed y celfyddydau a chymryd rhan ynddynt
- bod â golwg byd-eang ac uchelgeisiol ar gyfer llwyddiant rhyngwladol artistiaid Cymru
- cydnabod pwysigrwydd cynaliadwyedd

Ond ni all y Cyngor gyflawni'r nodau yma ar ei ben ei hun. Dyna pam rydym ni eisoes yn gweithio gydag gwahanol bartneriaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i gyflawni ein gwaith – artistiaid, sefydliadau, awdurdodau lleol, cyrff ymbarél, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, sefydliadau academaidd, cynghorau celfyddydol eraill ym Mhrydain a

thramor, y celfyddydau gwirfoddol, Nesta, byrddau iechyd, Cydffederasiwn y GIG, awdurdodau lleol ac ati. Rydym ni hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ein rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

Gyda rhai cyrff mae gennym gytundebau partneriaeth neu femorandwm cyd-ddealltwriaeth, yn eu plith BBC Cymru, y Cyngor Prydeinig a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r bartneriaeth rhwng y Cyngor a llywodraeth leol yn arbennig o bwysig – mae'n darparu sylfaen i gelfyddydau Cymru. Rhyngom, mae gennym y potensial i gyffwrdd â bywyd pawb yng Nghymru. Mae awdurdodau lleol yn cyflwyno eu gwybodaeth leol, ystod eang eu cyfrifoldebau, eu darpariaeth sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a'u cynrychiolaeth ddemocrataidd. Mae’r Cyngor yn dod ag arbenigedd a safbwynt cenedlaethol a rhyngwladol ar y celfyddydau. Mae'r ddau ohonom yn ariannu gweithgarwch creadigol a buddsoddi ynddo. Mae'n gyfuniad pwerus.

Mae pob corff cyhoeddus, gan gynnwys y Cyngor, yn gweithredu’n ôl fframwaith deddfwriaeth lesiant Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn nodi 5 Ffordd o Weithio i hyrwyddo ymddygiad sy'n cefnogi egwyddorion cydweithio, cynllunio hirdymor a datblygu cynaliadwy. Maen nhw'n hanfodol i'n ffordd o weithio. Rydym ni’n cymryd amser a gofal i feithrin cysylltiadau cynaliadwy a sicrhau y gall mentrau newydd ffynnu.

Bydd angen gweithredu’n benodol gyda'n partneriaid os yw ein hagenda i lwyddo. Mae gormod o rwystrau rhag cael mynediad i'r celfyddydau. Ac yn anffodus, y ni sydd wedi creu rhai ohonynt. Mae’r Cyngor yn perthyn i bawb a rhaid inni ddymchwel y rhwystrau lle bynnag y bônt.

Y camau rydym ni'n eu hystyried:

1. Sicrhau bod yr egwyddorion datblygu cynaliadwy yn neddfwriaeth lesiant Llywodraeth Cymru yn sail i bob agwedd ar ein cynllunio a'n hariannu

2. Datblygu a chyhoeddi cynlluniau adfer o'r pandemig sydd â chydraddoldeb wrth eu gwraidd ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'n Portffolio wneud yr un peth

3. Parhau i gymryd rhan mewn rhwydweithiau, tasgluoedd a grwpiau ymarferwyr

4. Ailystyried a symleiddio ein ceisiadau a'n meini prawf asesu gyda cheisiadau'r Loteri Genedlaethol i sicrhau bod ein harian yn cyrraedd holl gymunedau Cymru

5. Adolygu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth presennol gyda sefydliadau partner ac adrodd am ein cyflawniadau

6. Ymrwymo i brosesau parhaus o ddeialog a dysgu, gan herio ein diwylliant sefydliadol

Mae’r pandemig yn newid y ffordd mae pawb yn byw a’n hymwneud â'r celfyddydau, diwylliant a chreadigrwydd. Profiad cymdeithasol yw ymwneud â’r celfyddydau. Wrth i gyfyngiadau’r pandemig ddechrau llacio, bydd cynulleidfaoedd yn chwilio am gyfleoedd cymdeithasol y celfyddydau’n fwy nag erioed. Ac yn y dyfodol maent yn debycach o gymryd rhagor o ddiddordeb yn y ffordd rydym ni a'n sefydliadau yn gweithio a sut rydym ni’n cysylltu â phobl yn ein cymunedau.

Ein nod yw cael pobl, sefydliadau a chymunedau i gydweithio i sicrhau newid a sicrhau y bydd y gweithgareddau a ariannwn yn berthnasol i anghenion ac amgylchiadau pobl, sefydliadau a chymunedau. Os yw popeth wedi’i gynllunio'n iawn, mae grym a chyrhaeddiad cymunedau’n ei wneud yn llai tebygol y cwymp y rhai sy'n agored i niwed a’r rhai sy’n cael eu heithrio drwy’r rhwyd.

## Ailadeiladu cynulleidfaoedd, ymgysylltu â chymunedau

Cyn y pandemig roedd yn bosibl teithio yn eich ardal, yn genedlaethol a thramor i brofi'r celfyddydau. Ar hyn o bryd, dim ond ar-lein y gall y rhan fwyaf ohonom brofi celfyddydau a diwylliannau'r byd. A phan fydd gweithgarwch cyhoeddus yn ailddechrau, bydd ein bywyd diwylliannol yn debygol o fod yn lleol.

Bydd meithrin hyder y cyhoedd a galluogi dychwelyd i weithgarwch cyhoeddus diogel yn gofyn am gynllunio pwyllog a hyrwyddo clir. Mae nifer o sefydliadau'n ymrwymo i gynlluniau â marc safon megis un Cymdeithas Theatr Llundain a Theatrau Prydain, "See it Safely" ac un Twristiaeth Prydain "We're Good to Go". Croesawn y mentrau yma.

Mae gennym gymaint o ddiddordeb yn y ffordd y mae cymunedau'n ymgysylltu â'r celfyddydau ag y sydd gennym yn y rhai wedi'u rheoli a'u darparu'n draddodiadol. Gwyddom fod llawer o bobl sy'n teimlo nad yw'r celfyddydau cyhoeddus yn perthyn iddynt. Felly, rydym ni am weld a fydd gwahanol ffyrdd o weithio yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae cymunedau'n cael eu grymuso drwy'r celfyddydau i ail-greu ac ailgysylltu â'u hardaloedd lleol.

Mae llawer o ffyrdd y mae pobl yn ymgysylltu â'r celfyddydau. Gwyddom fod y gymuned yn bwysig iawn. Mae gwirfoddoli, cymryd rhan mewn gweithgarwch creadigol, trefnu digwyddiadau lleol a gweithio mewn partneriaeth yn helpu cymunedau i deimlo'n fwy cadarnhaol am eu hardal ac ymfalchïo yn eu diwylliant neu eu hethnigrwydd.

Mae galluogi unigolion a chymunedau i deimlo perchnogaeth dros y celfyddydau yn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn gynrychioliadol o'r gymuned. Ac yn y dyfodol byddwn ni'n gliriach am y gwahaniaeth rhwng gwneud pethau 'gyda' phobl a gwneud pethau 'i' bobl. Mae gweithio gyda'n gilydd yn golygu symud ymlaen gyda'i gilydd mewn ysbryd o gyd-greu. Mae hyn yn gofyn am ofal, amynedd a'r gallu i fod yn agored. Yn aml dyma'r allwedd i agor y drws i ymgysylltiad cynaliadwy.

Yn olaf.

Gallwn annog cynulleidfaoedd a chefnogi gwytnwch cymunedau drwy gyflawni ein dyletswyddau dinesig i atal lledaeniad y coronafeirws. Mae'r pandemig wedi effeithio ar bob sefydliad yng Nghymru, rhai'n fwy difrifol nag eraill. Ond anogwn y sefydliadau celfyddydol sydd ar hyn o bryd ag aelodau o staff segur i ystyried eu benthyca dros dro i Lywodraeth Cymru i fod yn rhan o'r ymateb i'r pandemig. Mae effaith yr argyfwng ar bob agwedd ar ein cymdeithas yn gofyn am ymateb hael a chyhoeddus. Gobeithio y gall ein sector gyfrannu at yr ymdrech.

Y camau rydym ni’n eu hystyried:

1. Cefnogi cyflwyno cynlluniau â marc safon megis un Cymdeithas Theatr Llundain a Theatrau Prydain, "See it Safely" ac un Twristiaeth Prydain "We're Good to Go"

2. Cyhoeddi gwybodaeth ariannol sy'n dangos sut y caiff ein harian ei ddosbarthu ledled Cymru a'r effaith a gaiff i annog y cyhoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau

3. Buddsoddi mewn ymchwil weithredol drwy ein rhaglen, Ehangu Ymgysylltiad, i nodi ffyrdd newydd o weithio gyda chymunedau amrywiol ledled Cymru

4. Gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod strategaethau datblygu'r celfyddydau yn cael eu llywio gan eu harbenigedd, eu cysylltiadau cymunedol a’u gwybodaeth leol

5. Annog sefydliadau i ystyried benthyca eu staff dros dro i Lywodraeth Cymru ac i'r rhaglen "Profi, Olrhain a Diogelu"

6. Ystyried gyda sefydliadau a allent gynnig lle dros dro yn eu hadeiladau am gyfleusterau sgrinio iechyd y cyhoedd